Y Pwyllgor Cydraddoldeb, Llywodraeth Leol a Chymunedau
Equality, Local Government and Communities Committee
ELGC(5)-17-17 Papur 9/ Paper 9

Carl Sargeant AC

Ysgrifennydd y Cabinet dros Gymunedau a Phlant

26 Mai 2017

Annwyl Carl,

**Bil Diddymu'r Hawl i Brynu a Hawliau Cysylltiedig (Cymru)**

Diolch i chi am ddod i'r sesiwn dystiolaeth ar 25 Mai ynghylch Bil Diddymu'r Hawl i Brynu a Hawliau Cysylltiedig (Cymru) ('y Bil').

Yn ystod y sesiwn hon, gwnaethoch gytuno i ysgrifennu at y Pwyllgor gyda'r wybodaeth a ganlyn:

- faint o eiddo sy'n debygol o gael ei effeithio gan y cyfyngiadau arfaethedig ar anheddau sydd newydd eu gosod; a
- manylion y broses ymgynghori cyn cyflwyno'r Bil.

Yn dilyn y sesiwn, cytunodd y Pwyllgor y dylwn ysgrifennu atoch yn gofyn am eglurhad ar y materion a ganlyn er mwyn helpu i lywio'r broses o ddrafftio'r adroddiad:

**Cynulliad Cenedlaethol Cymru**
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1NA
SeneddCymunedau@cynulliad.cymru
www.cynulliad.cymru/SeneddCymunedau
0300 200 6565

**National Assembly for Wales**
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1NA
SeneddCommunities@assembly.wales
www.assembly.wales/SeneddCommunities
0300 200 6565

- pa waith modelu sydd wedi'i wneud o ran yr effaith debygol ar werthu stoc tai cymdeithasol wrth bennu hyd y cyfnod rhybudd;
- a oes unrhyw dystiolaeth wedi'i chasglu ar gynnydd sydyn mewn gwerthu eiddo mewn ardaloedd lle mae'r hawl i brynu a'r hawl i gaffael wedi cael eu hatal; a'r
- goblygiadau ymarferol i Lywodraeth Cymru o godi'r cyfyngiadau mewn ardaloedd lle mae'r hawl i brynu a'r hawl i gaffael eisoes wedi'u hatal.

Byddwn yn ddiolchgar pe gallech ymateb erbyn 9 Mehefin 2017 fan bellaf.

Yn gywir

John

John Griffiths AC
Cadeirydd

Croesewir gohebiaeth yn Gymraeg neu Saesneg.

We welcome correspondence in Welsh or English.